

Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd

16 Hydref 2019, 10:00 – 12:00

Canolfan Gymunedol Cwmaman, Rhydaman

Yn bresennol

Aelodau'r Tasglu

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf
Dawn Bowden AC, Merthyr Tudful a Rhymni
James Davies, Diwydiant Cymru
Joshua Miles, Ffederasiwn y Busnesau Bach
Wendy Walters, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Gâr
Ruth Treharne, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Nicola Somerville – Dinas-Ranbarth Caerdydd (ar ran Kellie Beirne)

Aelodau'r Bwrdd Rhaglenni

Maureen Howell, Cydraddoldeb a Ffyniant – Dirprwy Gyfarwyddwr
David Rosser, Cyfarwyddwr Chwaraeon, ESNR

Tîm Tasglu'r Cymoedd

Sarah King, Arweinydd Prosiect Tasglu'r Cymoedd
Phil Lewis, Pennaeth Cangen Tasglu Blaenau'r Cymoedd
Kelly Clement – Rheolwr Rhaglen Tasglu'r Cymoedd

Ymddiheuriadau

Kellie Beirne – Cyfarwyddwr Rhaglen, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Siaradwyr

Phil Lewis, Parc Rhanbarthol y Cymoedd
Victoria Winckler, Sefydliad Bevan
Helen Cunningham, Sefydliad Bevan
Liam Hopkins, The Urbanists
Rhian Kyte – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Marcus Lloyd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Clair Stonelake, Llywodraeth Cymru

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau.

1. Agorwyd y cyfarfod gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC (LW) a chroesawodd yr aelodau newydd.
2. Rhoddodd Maureen Howell (MH) ddiweddariad cryno ar yr is-grwpiau ym mhob maes blaenoriaeth. Mae is-grwpiau yn cael eu ffurfio ar hyn o bryd ac rydym yn cydweithio â chadeirydd pob grŵp er mwyn penderfynu ar aelodaeth. Dyma Gadeirydd pob is-grŵp:
 - Economi Sylfaenol a Chwmnïau Synhwyrol - Joshua Miles
 - Entrepreneuriaeth a Chymorth Busnes - I'w gadarnhau
 - Trafnidiaeth - Dawn Bowden AC
 - Tai – Derek James (ar ran y Cynghorydd Andrew Morgan)
 - Cronfa Arloesi Tasglu'r Cymoedd – Lee Waters
 - Parc Rhanbarthol y Cymoedd – y Cynghorydd Anthony Hunt (Ruth Treharne yn bwynt cyswllt â'r tasglu)

- Canolfannau Strategol – gan gynnwys yr A465 a materion digidol – James Davies
3. Rhoddodd LW ddiweddariad ar yr adroddiad cynnydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r tasglu bellach mewn lle gwahanol i'r hyn ydoedd 10 mis yn ôl ac mae rôl y tasglu yn newid.
 4. Trafododd LW effaith bosibl Brexit ar y Cymoedd a gofynnodd i'r tasglu ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r tasglu i wynebu'r cyfnod anodd sydd o'n blaen.
 5. Mae tîm y tasglu yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled y Cymoedd ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru (TfW). Roedd hyn yn ymateb uniongyrchol i'r trafodaethau cynnar â chymunedau. Roedd y rhai a gynhaliwyd eisoes wedi mynd yn dda a threfnwyd y digwyddiad nesaf ar gyfer Aberdâr ar 17 Hydref.
 6. Cynhaliwyd y syrjeri fusnes gyntaf ym Margoed ar 17 Mehefin a bwriedir cynnal yr un nesaf yn Rhymni ar 25 Tachwedd.
 7. Mae cyfarfod yr wythnos nesaf i drafod y gwaith sy'n ymwneud â'r Alumni. Y syniad y tu ôl i hyn yw rhoi cyfle i ysgolion cyfun sefydlu eu rhwydwaith alumni eu hunain a darparu profiad gwaith ymarferol a mentora.
 8. Mae Cronfa Her yr Economi Sylfaenol wedi ei threblu. Mae Tasglu'r Cymoedd wedi darparu £2.45 m o gyllid yn benodol ar gyfer y prosiectau hynny sydd wedi'u lleoli yn ardal tasglu'r Cymoedd. Mae ceisiadau wedi cael eu hasesu a bydd cyhoeddiadau am brosiectau'r cymoedd yn cael eu gwneud yr wythnos nesaf.

Eitem 2: Parc Rhanbarthol y Cymoedd

1. Aeth Phil Lewis (PL) drwy bapur diweddaraf Parc Rhanbarthol y Cymoedd.
2. Cafodd cynigion gan bob un o'r 11 Porth eu hasesu a chyhoeddwyd canlyniad y broses gyllido ar 11 Medi.
3. Caiff gwefan Parc Rhanbarthol y Cymoedd, sy'n cwmpasu'r cyfnod cyntaf o Safleoedd Darganfod ac sy'n amlinellu datblygiadau Parc Rhanbarthol y Cymoedd, ei chreu yn y flwyddyn newydd.
4. Dywedodd LW, fel rhan o'i gyfarfodydd ag awdurdodau lleol sy'n edrych ar arfer gorau, fod y syniad o fodel y cysylltwyr cymunedol ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi ei grybwyll. Dywedodd PL y byddai 5 swydd Cysylltydd Cymunedol yn bodoli. Byddant yn gweithio drwy'r Pyrth Darganfod ac yn edrych ar yr hyn sydd yno eisoes, ac os yw hyn yn ddefnyddiol, a oes modd defnyddio hyn fel arfer gorau.
5. Dywedodd Ruth Treharne (RT) bod rhedeg yn y parc yn enghraifft dda. Mynegwyd pryder ynghylch amharodrwydd meddygon teulu i roi sêl bendith ar weithgareddau fel y rhain am nad ydynt yn cael asesiad risg. Beth allwn ni wneud i oresgyn hyn? **Cam Gweithredu - Gofynnodd LW i PL ystyried ymarfer mapio i edrych ar y bylchau.**
6. Dywedodd Dawn Bowden (DB) fod angen i'r agwedd llesiant fod yn fwy cysylltiedig â darpariaeth iechyd. **CAM GWEITHREDU - Cytunodd PL i godi hyn ag RT**
7. Mae Fforwm Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd, a bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r 13 o Awdurdodau Lleol, sefydliadau partner allweddol, byrddau iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector a'r sector preifat.
8. Tynnodd PL sylw at y gwaith a gyflawnwyd eisoes a'r cynlluniau i gynnal digwyddiadau ym mhob un o'r Pyrth Darganfod yn gynnar yn y flwyddyn newydd
9. Rhoddodd PL ddiweddariad byr ar ddynodiad tir. Mae cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a bydd gweithgor yn ystyried yr opsiynau posibl.

Eitem 3: Canolfannau Strategol – Uwch-gynlluniau/Cynlluniau Trafnidiaeth Integredig

10. Rhoddodd Clair Stonelake (CS) ddiweddariad byr ar y broses o ddatblygu'r uwch-gynlluniau. Mae tair elfen:
 - y cynllun ei hun
 - Tystiolaeth ategol i ddangos pam mae'r cynllun fel y mae
 - Cynllun cyflawni a gweithredu i ddangos sut i ddatblygu a chyflawni'r cynllun.
11. Mae'r uwch-gynlluniau ar ffurf drafft o hyd ac mae angen i'r tîm cleient eu cymeradwyo.
12. Cyflwynodd Liam Hopkins (LH) uwch-gynllun strategol Caerffili.
13. Ychwanegodd Rhian Kyte (RK) Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar yr ymgysylltu a wnaed gyda'r cyhoedd y llynedd gan ddarparu'r dystiolaeth a dangos y galw am yr amcanion a amlinellir yn y cynllun. Mae'r cyhoedd wedi cymryd rhan lawn yn yr holl waith hyd yma.
14. Canmolodd RK y broses ragorol a'r cydweithio â Chaerffili, Llywodraeth Cymru a'r Urbanists.
15. Gofynnodd Aelodau'r tasglu pa mor realistig oedd y cynlluniau o ran amserlenni ar gyfer cyflawni a ffynonellau cyllid. Cadarnhaodd The Urbanists fod yr holl brosiectau strategol yn y cynllun wedi bod yn destun cyngor masnachol allanol ac roeddent yn y broses o gynhyrchu cynllun cyflawni manwl ar gyfer pob un o'r tair ardal- Merthyr, Pontypridd a Chaerffili. Bydd y cynlluniau cyflawni yn amlinellu'r prosiectau strategol allweddol, eu hamserlenni a'u costau cysylltiedig, a hefyd yn rhoi'r rhain mewn cyfnodau o ran cyflenwi yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Eitem 4: Cymoedd Ffyniannus, Cymunedau Cryf

16. Agorodd Victoria Winckler (VW) y cyflwyniad: Cymoedd Ffyniannus, Cymunedau Cryf
17. Amlygodd y cyflwyniad mai'r prif elfennau ar gyfer dyfodol y Cymoedd yw'r canlynol, er mwyn sicrhau llwyddiant:
 - Cynllun tymor hir – 10 mlynedd a mwy
 - Uchelgeisiol
 - Cyflawnadwy
 - Ychwanegu at asedau
 - Cydnabod cymhlethdod
 - Canolbwyntio ar adeiladu'r economi a chreu swyddi
 - Achosion gwaelodol
18. Roedd Helen Cunningham (HC) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y pedair ffordd y gallai tasglu'r Cymoedd fwrw ymlaen â rhywfaint o'r gwaith hwn:
 - Gweithredu i adeiladu'r economi gyfan
 - Datblygu trefi angori
 - Manteisio i'r eithaf ar asedau – pobl a seilwaith
 - Manteisio i'r eithaf ar yr A465 a'r Metro
19. Mae heriau yn y dyfodol ac mae angen i'r camau a gymerir fod yn rhai hirdymor ac uchelgeisiol.
20. Sut mae cydbwysu pwysigrwydd yr economi sylfaenol yn erbyn cwmp swyddi â chyfflog isel? Dywedodd Joshua Miles (JM) fod hyn yn her deg. Nid oes gennym ond 18 mis ar ôl o'r rhaglen felly mae angen inni edrych ar yr agweddau diriaethol i'w datblygu. Mae angen i ni herio stereoteipiau ac ymffrostio mewn llwyddiannau. Mae angen i waddol y Tasglu fod yn weledigaeth hirdymor.

21. Soniodd LW am yr ansicrwydd a'r amseroedd anodd sydd o'n blaen ac effeithiau posibl Brexit, awtomeiddio cerbydau ac ati. Mae angen inni fod yn weithgar ac yn ymatebol felly sut y gallwn gynllunio gyda'r ansicrwydd hwn? Dywedodd VW Bod angen i'r Cymoedd ymdopi â newidiadau a bod angen gwytnwch a sgiliau arnom i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt ddod i'r amlwg.
22. Soniodd Wendy Walters (WW) fod angen i ni archwilio beth yw rôl y sector cyhoeddus. Mae asedau cyhoeddus yn crebachu felly beth a ellir ei drosglwyddo i'r gymuned?
23. Diolchodd LW i VW a HC am eu cyflwyniad a chodwyd ein bod yn awyddus i ymgysylltu â Sefydliad Bevan ac rydym yn croesawu unrhyw heriau.

Eitem 5: UNRHYWFATER ARALL

24. Bydd cyfarfodydd y dyfodol yn canolbwyntio ar nifer o'r blaenoriaethau a'r trafodaethau sy'n dod o'r is-grwpiau.
25. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 30 Ionawr, 10:00-12:00. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn.